

## CYNGOR DINAS CASNEWYDD

### Hysbysb Statudol - Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Sarah Morgan,  
Prif Swyddog Addysg  
Cyngor Dinas Casnewydd,  
Canolfan Ddinesig  
Casnewydd,  
NP20 4UR



Rhoddir Hysbysiad yn unol ag adran 42 Deddf Safonau Ysgol a Sefydliadau (Cymru) 2013 a Chod Trefniadau'r Ysgol bod Cyngor Dinas Casnewydd, wedi ymgynghori â'r bobl y mae gofyn ymgynghori â nhw, yn cynnig addasu Ysgol Gynradd Caerleon Lodge Hill, Roman Way, Caerllion i greu dosbarth cyffredinol 10 lle Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer disgyblion rhwng 4 ac 11 oed ag anghenion dysgu ychwanegol. Ysgol cyfrwng Saesneg yw hi sy'n cael ei chynnal gan Gyngor Dinas Casnewydd.

Cynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion, ymatebion y cynigiwr a barn Estyn ar gael yn <http://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/Establishment-of-LRB-at-Lodge-Hill-Primary-school.aspx>.

Y bwriad yw gweithredu'r cynnig hwn ar 29 Ebrill 2019.

Bydd sefydlu'r Ganolfan Adnoddau Dysgu'n cynorthwyo'r galw cynyddol am ddarpariaeth addysg arbennig trwy Gasnewydd trwy ddull cynhwysol o alluogi addysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn y brif lif. Bydd derbyniadau'n seiliedig ar asesiad o angen fel y'i pennir gan y Prif Swyddog Addysg.

Mae gan y Cyngor bolisi Trafnidiaeth o'r Ysgol i'r Cartref ac mae'n darparu trafndiaeth am ddim i ddisgyblion cymwys o oedran ysgol statudol. Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y ddarpariaeth hon. Mae mwy o wybodaeth yn ymwneud â'r polisi hwn ar gael ar wefan y Cyngor.

#### Cyfnod Gwrthwynebu

Gellir cyflwyno gwrthwynebiadau i'r cynigion hyn yn ysgrifenedig neu dros e-bost o fewn 28 diwrnod wedi dyddiad cyhoeddi'r cynigion, sef erbyn dydd Llun 4 Chwefror 2018.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i Gyngor Dinas Casnewydd, at sylw'r Swyddog Gwybodaeth a Datblygu'r Gwasanaeth Addysg, Ystafell 425w, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR. Dylid anfon gwrthwynebiadau drwy e-bost at [school.reorg@newport.gov.uk](mailto:school.reorg@newport.gov.uk)

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu yn ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau ar y gwrthwynebiadau hynny, pan roddir gwybod i randdeiliaid am benderfyniad y cynnig.

Llofnodwyd gan:

Prif Swyddog Addysg  
Ar ran Cyngor Dinas Casnewydd, Canolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR  
Dyddiad: 7 Ionawr 2019